

# Blwyddyn i fynd nes bod newidiadau labelu alergenau yn dod i rym

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn codi ymwybyddiaeth o newidiadau i gyfreithiau labelu alergenau trwy [ddarparu gwybodaeth ac adnoddau newydd](#) i helpu busnesau i baratoi cyn iddynt ddod i rym ar 1 Hydref 2021 yng Nghymru, yn Lloegr a yng Ngogledd Iwerddon.

Bydd yr wybodaeth hon yn helpu busnesau i wirio a yw'r newidiadau yn berthnasol iddyn nhw a beth sydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn paratoi.

Bydd y rheolau newydd yn diogelu defnyddwyr sydd â gorsensitifrwydd i fwyd trwy fynnu bod gwybodaeth am alergenau yn cael ei chynnwys ar labeli bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol, a allai achub bywydau.

Mae hwn yn fwyd sy'n cael ei becynnu yn yr un lle ag y mae'n cael ei werthu neu ei gynnig i ddefnyddwyr, ac sydd mewn deunydd pecynnu cyn i'r cwsmer ei archebu neu ei ddewis. Mae'r ASB wedi creu [canllawiau i helpu busnesau i wirio yn union pa gynhyrchion fydd angen cynnwys y labelu newydd arnynt](#).

Daw'r newidiadau yn dilyn marwolaeth drasig merch ifanc o'r enw Natasha Ednan-Laperouse o adwaith alergaidd, a achoswyd gan faguette nad oedd yn rhaid cynnwys label alergenau arno.

Mae llywodraethau ledled y Deyrnas Unedig (DU) wedi cyflwyno deddfwriaeth newydd o'r enw 'Deddf Natasha', a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r bwydydd hyn gynnwys gwybodaeth am gynhwysion ac alergenau ar y label o 1 Hydref 2021.

## **Meddai Rebecca Sudworth, Cyfarwyddwr Polisi yr ASB:**

“Rydym ni'n gwybod bod hwn yn gyfnod heriol i fusnesau bwyd, ond rydym ni'n eu hannog i wirio a yw'r gyfraith newydd hon yn effeithio arny'n nhw a'r hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud i fodloni'r gofynion.

“Mae'n bwysig gweithredu yn y ffordd gywir – nid yn unig i'r busnes – ond i'r miliynau o bobl yn y DU sy'n byw gydag alergeddau neu anoddefiadau bwyd.

“Mae pawb yn haeddu gallu gwneud dewisiadau mwy diogel wrth brynu eu bwyd.”

## **Tim McLachlan, Prif Weithredwr, Sefydliad Ymchwil Alergedd Natasha**

Mae angen gwell labelu arnom ni fel y gall pobl ag alergeddau bwyd fod yn hyderus wrth fwyta bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw.

Rydym ni'n gwybod bod hwn yn gyfnod anodd i'r diwydiant bwyd a lletygarwch ond rydym ni'n eu hannog i weithredu nawr i gydymffurfio â chyfraith Natasha a fydd yn

ychwanegu tryloywder, yn rhoi hyder ac yn ei dro yn atal rhagor o drasiedïau.

Mae hyn y tu hwnt i labelu, mae'n ymwneud â bywydau pobl.

## **Dolenni**

[Tudalen we'r ASB – Newidiadau i wybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol](#)

## **Nodiadau**

Mae'r ASB yn diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon.

Disgwylir i newidiadau tebyg gael eu cyflwyno yn yr Alban gan Safonau Bwyd yr Alban.